SUL CYFFREDIN 29

ESEIA 65:17-25; SALM 98;
2 THESALONIAID 3:6-13; LUC 21:5-19

● **Gweddi agoriadol**

Ar y diwrnod hwn o ddechreuadau newydd
bydd di yn ganol i'n haddoli:
y Tad sy'n ein caru,
y Mab sy'n ein clywed,
yr Ysbryd sydd ynom,
yr undod rhyngom,
y bywyd rydym yn ei fyw.

● **Moliant**

Ar ein taith gyda thi
mae pen draw.
Teithia rhai yn ysgafn,
heb eu beichio
gan lwythi bywyd,
eu dwylo yn rhydd i wasanaethu
a helpu ar y daith.
Teithia rhai yn araf,
wedi'u gorlwytho
gan feichiau,
ac angen rhyw help
gyda'u llwyth.

Ac felly, yn deithwyr,
cyfarfyddwn ar y ffordd,
a chymryd, neu estyn llaw.
Mae cyrchfan
y teithiwn tuag ati –
i'th bresenoldeb
ble, gyda'r angylion,
yr addolwn di bob dydd.

● **Cyffes**

Cadw ni yn agos yw'n gweddi.
Bydd di yr un y trown ato
pan wynebwn ofn,
ansicrwydd,
a chwestiynu.
Bydd y graig y safwn arni,
y gwirionedd y glynwn wrtho,
a'r sicrwydd y pwyswn arno.
Bydd y Tad y syrthiwn
yn llawen i'w freichiau,
y diogelwch yn ein teithio.
Cadw ni yn agos yw'n gweddi.

● Diolch

Pan gerddwn gyda thi
yng ngoleuni dy gariad,
dy ogoniant di ddaw i'r golwg,
nid yr eiddo ni.

Pan siaradwn amdanat
gyda'r rheini a gyfarfyddwn,
dy eiriau di sy'n siarad,
nid yr eiddo ni.

Pan wasanaethwn
bobl mewn angen,
dy ddwylo di sy'n iacháu,
nid yr eiddo ni.

Diolch i ti, Arglwydd Dduw,
pan addolwn di
a chyflwyno ein bywydau,
caiff dy enw ei ogoneddu
wastad.